# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 21 Mai 2013** |
| Amser: | **09:00 – 10:50** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_21_05_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 'Cyllid Iechyd' a 'Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru'

2.1 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi cyngor i'r Pwyllgor ar ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 'Cyllid Iechyd' a 'Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru'.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllid Iechyd ar ôl mis Mehefin 2013.

2.3 Nododd y Pwyllgor y croesgyfeirio rhwng ymateb Llywodraeth Cymru i 'Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru' a'r ymchwiliad 'Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd'. Cytunodd i wahodd Llywodraeth Cymru i roi tystiolaeth mewn cyfarfod yn yr hydref.

## 3 Papurau i'w nodi

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

## 5 Sesiwn friffio ar y materion cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen

5.1 Trafododd y Pwyllgor y materion cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen.

## 6 Trafod cymorth i'r Pwyllgor

6.1 Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch cymorth i'r Pwyllgor.

## 7 Argyfyngau Sifil yng Nghymru - Ystyried yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft 'Argyfyngau Sifil yng Nghymru' a chytunodd i ystyried fersiwn ddiwygiedig mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod.]